

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Tachwedd 2018

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (y Pwyllgor) ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 mewn cysylltiad â'r meysydd polisi yng nghylch gwaith y Pwyllgor.
2. Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac adroddiadau pwyllgorau craffu eraill, bwriedir i'r adroddiad hwn hysbysu dadl y Cynulliad ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi ei threfnu ar gyfer 4 Rhagfyr 2018.

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

3. Ar 2 Hydref 2018, gosododd Llywodraeth Cymru ei [chynigion amlinellol ar gyfer y gyllideb ddrafft](#), a oedd yn nodi'r dyraniadau ar gyfer y prif grwpiau gwariant. Gosodwyd y [gyllideb ddrafft fanwl](#), a oedd yn cynnwys y meysydd gwariant unigol o fewn pob prif grŵp gwariant, ar 23 Hydref 2018. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau gwariant y llywodraeth ar gyfer 2019-20. Cyhoeddwyd y [setliad Llywodraeth Leol dros dro](#) ar 9 Hydref 2018.
4. Prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus oedd y prif grŵp gwariant a oedd yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor ar adeg cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. O fewn y prif grŵp gwariant cyffredinol, Llywodraeth Leol, Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai, Adfywio a Diogelwch Cymunedol yw'r elfennau penodol sy'n berthnasol i'n Pwyllgor.



Dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb

5. Ar 25 Hydref 2018, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar y blaenoriaethau a'r pwysau sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i hysbysu gwaith y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb.
6. Ar 15 Tachwedd 2018, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio ar eu cynigion cyllidebol.
7. Cymerwyd rhan hefyd mewn cyfarfod cydamserol ar 15 Tachwedd 2018 gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gan edrych yn benodol ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Aseiad Effaith Integredig Strategol Sengl. Cytunodd yr Aelodau a oedd yn cynrychioli pob un o'r tri phwyllgor y byddant yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn y sesiwn hon ac yn llunio allbwn ar y cyd maes o law. Nod yr allbwn hwn fydd hysbysu datblygiad Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, a chyllidebau drafft yn y dyfodol wedi hynny, i sicrhau bod prosesau cadarn a thryloyw ar waith i asesu effaith penderfyniadau ariannol.
8. Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion i hysbysu ein gwaith o graffu ar y gyllideb a chraffu ariannol ehangach.

Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol

Trosolwg

9. Mae'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol (adnoddau a chyfalaf) a'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol, ar ffurf Trethi Annomestig a adwaenir hefyd fel Ardrethi Busnes. £5.389 biliwn oedd y cyllid a neilltuwyd ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol ar gyfer 2019-20 ar adeg cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Gall hyn newid bellach yng ngoleuni'r datganiad diweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn nodi cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol (gweler paragraff 17).¹
10. Mae'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn cynnwys cyllid ar gyfer awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, cyllid ar gyfer Comisiynwyr

¹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig, Cyllideb Ddrafft 2019-20 – Cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol, 20 Tachwedd 2018](#)

Heddlu a Throseddu, cyllid ar gyfer Arolygiaeth Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn, ynghyd â rhaglenni gwariant eraill.

11. Y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yw'r ail prif grŵp gwariant unigol ar ôl y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Setliad Llywodraeth Leol dros dro 2019-20

12. Y dyraniad mwyaf yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yw'r cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae hwn yn rhoi manylion y cyllid refeniw a chyfalaf a ddyrennir i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

13. Dosberthir y setliad i'r cynghorau ar sail fformiwla seiliedig ar anghenion sy'n ystyried amrywiaeth o nodweddion awdurdod lleol. Dywedodd CLILC wrthym fod y fformiwla "yn cael ei dal at ei gilydd gan dâp duct a phlasteri glynu", er iddynt fynd yn eu blaenau i ddweud nad y fformiwla oedd y broblem ond "y cwantwm sy'n dod i lywodraeth leol".² Pan godwyd mater y fformiwla ariannu gennym ni gydag Ysgrifennydd y Cabinet, dywedodd wrthym fod y fformiwla yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Aeth yn ei flaen i ddweud nad yw wedi cael unrhyw geisiadau yn ceisio adolygiad sylfaenol o'r fformiwla.³

14. Cyhoeddwyd y ~~Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2018-19~~ ar wahân i'r gyllideb ddrafft, ar 9 Hydref 2018. Byddai saith cyngor wedi gweld cynnydd i'w cyllid, gyda Chaerdydd yn cael y cynnydd mwyaf, sef 0.4%. Byddai'r 14 awdurdod sy'n weddill wedi cael gostyngiad o rhwng 0.3% ac 1% i'w cyllid. Ni chafodd y setliad hwn ei ddisodli gan y cyhoeddiad a wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 20 Tachwedd.

15. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyllid gwaelodol yn 2016-17. Ar gyfer 2019-20, fe'i pennwyd i sicrhau na fyddai unrhyw awdurdod yn profi gostyngiad o fwy nag 1%. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £2.5 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2019-20. Bydd pob un o'r pum awdurdod lleol sy'n ddarostyngedig i'r gostyngiad o 1% yn cael cyllid ychwanegol. Nododd cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 20 Tachwedd y byddai'r cyllid gwaelodol yn cael ei gynyddu i 0.5%.

² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [67]

³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [299]

16. Ar 20 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ddatganiad ysgrifenedig yn nodi cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol. Ar gyfer cyllideb 2019/20, bydd hyn yn cynnwys:

- £13 miliwn ychwanegol yn y grant cymorth refeniw i ddarparu setliad arian gwastad i lywodraeth leol;
- £1.2 miliwn i gynyddu'r cyllid gwaelodol fel nad oes yr un awdurdod lleol yn wynebu gostyngiad o fwy na 0.5%;
- £7.5 miliwn arall i gynorthwyo awdurdodau lleol i ymateb i'r pwysau o ran cost sy'n gysylltiedig â gweithredu'r dyfarniad cyflog i athrawon;
- Dyrannu'r swm canlyniadol llawn o £2.3 miliwn o Gyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant – er mwyn helpu i atal plant rhag cael eu rhoi mewn gofal; a
- £30 miliwn ychwanegol o gyfalaf ar gyfer cronfa gyfalaf gyffredinol awdurdodau lleol - dyma'r ail randaliad o gynnydd o £100 miliwn dros dair blynedd i'r gronfa gyfalaf gyffredinol.⁴

17. Cyn gwneud y datganiad hwn, roedd CLILC wedi galw am gynyddu'r cyllid gwaelodol o -1% i -0.5%. Dywedasant mai dim ond £4 miliwn fyddai hyn yn ei gostio ond y byddai “yn dangos lefel o ymrwymiad i wasanaethau lleol y byddai croeso mawr iddo”.⁵

18. Galwodd Arweinydd CLIC ar Lywodraeth Cymru i sicrhau setliad arian parod gwastad yng nghyllideb 19-20, gan amlygu y byddai'n costio £12 miliwn yn unig, syss “yn ffigur rhesymol iawn” yng nghyd-destun cyllideb Llywodraeth Cymru.⁶

19. Pan rannwyd yr awgrymiadau hyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet, dywedodd wrthym fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i lefel y cyllid gwaelodol. Dywedodd ei fod wedi cael ei osod ar -1% oherwydd mai dyma'r rhagdybiaeth gynllunio a

⁴ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig, Cyllideb Ddrafft 2019-20 – Cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol, 20 Tachwedd 2018](#)

⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [37]

⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [38]

ddefnyddiwyd o'r gyllideb ar gyfer 2018-19. Gan fod awdurdodau lleol wedi bod yn cynllunio ar y lefel hon, ystyriwyd ei bod yn "rhesymol".⁷

20. Rydym yn croesawu cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 20 Tachwedd, ac yn benodol y cyllid ychwanegol i gynyddu'r cyllid gwaelodol a'r £13 miliwn ychwanegol i ddarparu setliad arian gwastad i lywodraeth leol. Ond rydym yn cydnabod bod llywodraeth leol yn dal i wynebu gostyngiad i gyllid mewn termau real.

21. Nodwyd gennym yn ein hadroddiad cyllideb y llynedd ein bod yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae cyni cyllidol parhaus wedi ei chael ar lywodraeth leol. Mae hyn yn parhau i fod yn wir. Nid ydym yn tanbrisió'r heriau a wynebir gan awdurdodau lleol ledled Cymru, wrth iddynt geisio dod o hyd i ffyrdd effeithiol a chynaliadwy o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau i gredu ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gydweithio i ddod o hyd i atebion a fydd yn sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn wir o ran gwasanaethau statudol ac anstatudol.

22. Rydym hefyd yn nodi bod diwygio Llywodraeth Leol yn dal i fod yn fater byw o hyd. Rydym yn parhau i aros am ganlyniadau gwaith Llywodraeth Cymru ar hyn, fel y gwnaethom y llynedd. Edrychwn ymlaen at ddatblygiadau pellach yn y flwyddyn newydd, gan obeithio y byddant o gymorth i roi awdurdodau lleol ar sail fwy cynaliadwy.

23. Rydym hefyd yn cydnabod y pwyntiau a godwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet a CLILC, sef bod angen i'r gwaith trawsnewid gwasanaethau roi'r gwasanaethau ar sail fwy cynaliadwy. Y gwir amdani yw na allwn ddisgwyl i'r cyd-destun ariannol newid yn y blynyddoedd i ddod, a bydd awdurdodau lleol yn parhau i wynebu penderfyniadau anodd. Mae angen eu cynorthwyo ym mhob ffordd bosibl i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio.

Pwysau ar y gweithlu

24. Fel y nodwn ym mharagraff 18, clywsom fod hwn yn gylch cyllideb arbennig o anodd oherwydd ystod o bwysau o ran costau'r gweithlu. Tynnodd CLILC sylw at

⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [37] [233-234]

hynny, yn ogystal â gorfod ariannu codiadau cyflog, ac roedd cyfraniadau pensiwn uwch hefyd.⁸

25. Dywedodd CLILC wrthym fod llawer o awdurdodau lleol ddim ond wedi gallu mantoli'r gyllideb oherwydd y cyfyngiadau cyflog ar weithwyr llywodraeth leol.⁹ Nawr bod y cyfyngiad hwnnw ar gyflogau wedi cael ei ddiddymu nid yw setliad isel "neu unrhyw beth tebyg i arian gwastad yn ddigonol mewn gwirionedd ac nid yw'n mynd i'r afael â phwysau'r gweithlu yr ydym yn ei wynebu ar hyn o bryd".¹⁰

26. Gan fod rhai o'r penderfyniadau hyn am gyflogau a phensiynau yn cael eu gwneud ar lefel Llywodraeth y DU, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y dylent gael eu hariannu gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dalu costau cynnydd uwchlaw 1% i gyflogau athrawon yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid¹¹ i helpu awdurdodau lleol i ymdrin â'r pwysau o ran y gost sy'n deillio o'r cynnydd i gyflogau athrawon. Nodwn y bydd y £7.5 miliwn ychwanegol ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol (2018-19) a'r flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, nid ydym yn eglur a fydd hyn yn datrys y pwysau a wynebier gan awdurdodau lleol o ran ariannu'r cynnydd i gyflogau athrawon. Hoffem pe bai Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'r cyllid hwn yn ddigonol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'r arian ychwanegol a ddyrannwyd yn diwallu anghenion awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer y cynnydd yng nghyflogau athrawon.

27. Yn ogystal â hynny, ceir diffyg eglurder o hyd ynghylch ariannu'r cynnydd i gyfraniadau pensiwn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi ysgrifennu ar y cyd at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y mater hwn ym mis Medi, a'i fod yn dal yn destun ystyriaeth weithredol.¹² Rydym yn croesawu'r newyddion y bydd Llywodraeth Cymru yn

⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [50]

⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [54]

¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [50]

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig, Cyllideb Ddrafft 2019-20 – Cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol, 20 Tachwedd 2018](#)

¹² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [276]

ysgrifennu ar y cyd â CLILC at y Canghellor yn ailadrodd galwadau i Lywodraeth y DU ariannu'r cyfaniadau pensiwn cynyddol yn llawn.¹³

28. Clywsom gan CLILC os na fydd yr arian ar gyfer pensiynau ar gael gan Lywodraeth y DU, y bydd y sefyllfa'n gwbl agored ac "rydym ni i lawr eto ar ein cyllidebau, felly os ydych chi'n ychwanegu toriad pellach o £40 miliwn i sefyllfa anodd eisoes, dydw i ddim yn eithaf sicr lle rydych chi'n mynd â hynny"¹⁴. Felly byddem wedi hoffi clywed mwy gan Ysgrifennydd y Cabinet am y trefniadau sydd wrth gefn os na fydd yr arian hwn ar gael gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa drefniadau amgen fyddai eu hangen os nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cyfraniadau pensiwn athrawon.

Gwariant ataliol

29. Roeddem yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn llunio diffiniad cyffredin o atal yn rhan o'r cylch cyllideb hwn, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid:

Atal yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a llefydd i'w cyfrannu.

Gan rannu i bedair lefel, gall pob lefel leihau'r galw am yr un nesaf:

- Atal sylfaenol (AS) – Adeiladu cydnerthedd – creu'r amodau fel na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Dull gweithredu cyffredinol.
- Atal eilaidd (AE) – Targedu camau gweithredu tuag at ardaloedd lle ceir risg uchel i broblemau ddigwydd. Dull gweithredu wedi'i dargedu, sy'n atgyfnerthu egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*.
- Atal trydyddol (AT) – Ymyrryd pan fydd problem, i'w hatal rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu ar sail ymyrryd.
- Gwariant aciwt (GA) – Gwariant sy'n cymryd camau i reoli effaith sefyllfa hynod negyddol ond sy'n gwneud ychydig neu ddim byd i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull gweithredu adferol.

¹³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig, Cyllideb Ddrafft 2019-20 – Cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol, 20 Tachwedd 2018](#)

¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [177]

* cyffredinoliaeth gynyddol yw bod yn benderfynol o ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a diddordeb penodol i bawb a phopeth, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth ar y bobl neu'r meysydd hynny sydd â'r angen mwyaf.¹⁵

30. Disgrifiodd CLILC awdurdodau lleol fel y” gwasanaeth ataliol”, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol.¹⁶ Dywedasant ei bod yn hirdymor, yn ddiffwdan ac yn anweledig, ac felly nid yw'n cael ei werthfawrogi na'i gydnabod yn ddigonol.¹⁷ Gall hyn, yn eu barn nhw, effeithio ar benderfyniadau cyllidebol.¹⁸

31. Pan holwyd CLILC am y diffiniad newydd:

“I saw the definition yesterday. I'm content with the definition, but whether Welsh Government meet their own definition—”¹⁹

32. Pan ofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am enghreifftiau penodol o ataliadau sylfaenol, uwchradd neu drydyddol yn ei gyllideb, roedd yn siom na allai roi'r un enghraifft.

33. Fodd bynnag, nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet am sut y mae'n dymuno blaenoriaethu gwaith ataliol yn rhywbeth mwy arferol. Hoffem weld mwy o fanylion am y ffurf y bydd hyn yn ei gymryd.

Cyllid ar gyfer gwasanaethau hanfodol – ysgolion

34. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am wariant addysg yn eu hardaloedd. Yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru, mae'r cynghorau yn dirprwyo rhwng 75% a 90% o wariant cyllidebol ysgolion gros cyffredinol.

35. Clywsom dystiolaeth lom iawn gan CLILC am effaith bosibl dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyllid ysgolion. Dywedasant fod y problemau ariannol mor ddifrifol â gofal cymdeithasol.²⁰ Nododd y gyllideb ddrafft fod y cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer cyflogau athrawon yn golygu na fydd angen i awdurdodau lleol wneud arbedion effeithlonrwydd na lleihau nifer yr athrawon i

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Cynigion Manwl Cyllideb Ddrafft 2019-20, tudalen 43

¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [11]

¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [75]

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, paragraff 7

¹⁹ ELGC Committee, 25 October 2018, RoP [115]

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, paragraff 14

fodloni'r codiadau cyflog. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar, dywedodd CLILC wrthym nad yw'r pwysau sy'n wynebu ysgolion yn ymwneud â'r pwysau sy'n gysylltiedig â chyflogau yn unig:

"We will be reducing the number of teachers and teaching assistants. We cannot make ends meet. This is a huge cost for us, and the view that schools won't need to make efficiencies or redundancies is not just about covering the pay rise; it ignores the wider situation where some authorities are telling us privately that school budgets could plummet by about 5 per cent from next year....."²¹

36. Yng ngoleuni'r darlun llwm iawn a gyflwynwyd gan CLILC, nid ydym yn teimlo ei bod yn dderbyniol i Ysgrifennydd y Cabinet ddweud yn syml bod hwn yn fater i bob awdurdod lleol unigol. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gwneud penderfyniadau yn lleol, y gwir amdani yw bod awdurdodau lleol yn gorfod gweithio yn unol â'r swm cyffredinol o arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn debyg i'r ffordd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu yn unol â'r swm cyffredinol a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

Cyllid ar gyfer gwasanaethau hanfodol – gofal cymdeithasol

37. Ailadroddwn ein canfyddiadau o'r llynedd mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol. Rydym yn parhau i gydnabod y sefyllfa anodd y mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ynddi, o ganlyniad i bolisïau cyni cyllidol parhaus Llywodraeth y DU. Ond byddem hefyd yn ailadrodd ein galwadau nad yw ariannu gofal cymdeithasol yn benodolyn y dyfodol, er ei bod yn fater heriol, yn un y dylai unrhyw un geisio ei osgoi.

38. Fe'i rhestrir fel un o'r chwe maes blaenoriaeth yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb. Yn y Setliad Llywodraeth Leol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei fod yn darparu buddsoddiad ychwanegol mewn gofal cymdeithasol yn 2019-20 i £50 miliwn.²² Bydd £20 miliwn yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Cymorth Refeniw, a £30 miliwn fel cyllid wedi'i dargedu.

39. Croesawodd CLILC yr £ 20 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol, ond roeddent yn pryderu am yr amodau posibl y gellid eu cyflwyno ar y gronfa wedi'i thargedu o £30 miliwn. Er gwaethaf yr arian ychwanegol hwn, dywedasant

²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [164]

²² Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig, Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2019-20](#)

wrthym eu bod wedi eu gadael â phwysau gwerth £250 miliwn. Disgrifiwyd y rhain fel “y pwysau mwyaf anghymesur yr ydym yn eu hwynebu.”²³

40. Nodwn y llythyr gan CLILC at y Prif Weinidog yn gofyn i'r dyraniad o'r £30 miliwn a neilltuwyd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael ei bennu fel “Cronfa Atal Llywodraeth Leol”.

41. Nodwn ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir o amodoldeb a hyblygrwydd ac y bydd yr eglurder hwn yn cael ei gyflwyno “o fewn fframwaith amser rhesymol”.²⁴

42. Rydym yn gwerthfawrogi ei onestrwydd ynghylch ei bryderon sylweddol am gynaliadwyedd y strwythurau. Rydym yn cefnogi ei ymgyrch i sicrhau integreiddiad agosach a gwell gyda maes iechyd. Rydym yn credu bod cyllidebau cyfun ac integreiddio gwasanaethau a chynllunio gwasanaethau yn gam pwysig ymlaen i wneud hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gall sicrhau bod yr holl bartïon dan sylw yn camu ymlaen a chymryd y lefel briodol o gyfrifoldeb yn aml fod yn gyfrifoldeb yr unigolion perthnasol ar lefel leol.

43. Rydym yn ymwybodol o arfer da yng Nghaerdydd, ond nid yw'n eglur a yw'n digwydd ledled Cymru. Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, dylai fod fframwaith eglur ac ymrwymiad gan wasanaethau iechyd yn ogystal â llywodraeth leol i sicrhau bod cyllidebau'n cael eu cyfuno mewn modd sy'n darparu'r gwasanaethau gorau i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer llywodraeth leol a byrddau iechyd i helpu i wella'r gwaith o gyfuno cyllidebau fel y darperir gwasanaethau di-dor.

Cyllid cyfalaf

44. Dyrannwyd £142.8 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2019-20. Dyrannwyd £60 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i gynorthwyo gyda'r gwaith o ailwampio ffyrdd.

²³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [122]

²⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [334]

45. Nodwn y cyhoeddiad ar 20 Tachwedd y byddai £30 miliwn o gyfalaf ychwanegol ar gyfer cronfa cyfalaf cyffredinol awdurdodau lleol ar gael yn 19-20. Dyma'r ail randaliad o gynnydd o £100 miliwn dros dair blynedd i'r gronfa cyfalaf cyffredinol.²⁵

46. Nodwn ganfyddiadau Comisiwn Williams lle amlygwyd bod costau cynnal a chadw priffyrdd yn amrywio yn dibynnu ar y math o ffordd a lefel y traffig. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, tynnwyd sylw ganddynt at wahaniaeth sylweddol yn y costau cynnal a chadw rhwng Ceredigion a Phowys, sy'n ardaloedd tebyg (er bod gan Geredigion rwydwaith ffyrdd llawer byrrach.) Nodwn fod adroddiad y Comisiwn yn dod i'r casgliad ei bod yn anodd amcangyfrif yr arbedion posibl ond maent yn debygol o fod yn "sylweddol iawn".²⁶

47. Pan archwiliwyd, ynghyd ag Ysgrifennydd y Cabinet, y cyfleoedd i rannu arferion gorau, a sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yn cael y gwerth gorau posibl am yr arian, roedd ei dystiolaeth yn amwys. Er ein bod yn derbyn safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'n briodol i Lywodraeth Cymru ymyrryd mewn penderfyniadau lleol unigol, credwn fod gan Ysgrifennydd y Cabinet swyddogaeth eglur i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhannu arfer gorau. Mae hefyd yn aneglur pam mae'r cyllid ailwampio ffyrdd o £60 miliwn yn rhan o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, gan yr amlygwyd gan swyddogion bod cydweithwyr trafndiaeth Llywodraeth Cymru yn trafod y grant.

48. Credwn yn yr achosion hynny, lle ceir allanolyn eglur a allai ddysgu o arfer gorau mewn mannau eraill yn y sector llywodraeth leol, y dylai Ysgrifennydd y Cabinet geisio egluro i'r awdurdod lleol perthnasol fod angen iddo wella.

Arolygiaethau

49. Ariennir tair arolygiaeth drwy'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol; Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC); Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn. Roedd cyllideb derfynol 2018/19 yn cynnwys toriadau cyllideb dangosol o 5.4% i gyllid refeniw ar gyfer pob un ohonynt yng nghyllideb 19/20. Fodd bynnag, mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer setliad arian gwastad ar gyfer AGC ac AGIC, gydag Estyn yn cael gostyngiad o 1.8% i'w gyllid refeniw cyffredinol.

50. Mae'r Arolygiaethau i gyd yn gwneud gwaith pwysig, ac rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod ganddynt y lefelau cywir o gyllid i wneud hyn. Archwiliwyd sut mae'r arolygiaethau yn mynd ati i nodi a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.

²⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig, Cyllideb Ddrafft 2019-20 - Cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol, 20 Tachwedd 2018](#)

²⁶ [Comisiwn Williams, paragraff 3.39](#)

Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu disgrifio rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn AGC. Maent wedi gwneud arbedion gweinyddol trwy ddigido rhywfaint o'u gwaith, ac esboniwyd bod AGIC yn bwriadu gwneud rhywbeth tebyg.

51. Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Arolygiaethau i sicrhau y gallant ganolbwyntio eu hadnoddau cyfyngedig ar y gwaith arolygu hanfodol y maent yn ei wneud.

Cronfeydd wrth gefn

52. Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd tra'r oeddem yn cynnal ein gwaith craffu ar y gyllideb yn dangos mai £866 miliwn oedd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru ddiwedd mis Mawrth 2018. Cronfeydd wrth gefn yw'r rhain sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau neu at ddibenion penodol. Mae gan yr awdurdodau hefyd £198 miliwn o gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd annisgwyl.

53. Dywedodd CLILC wrthym eu bod yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn rhan o gynllun pontio nes y bydd rhyw ddigwyddiad yn y dyfodol yn cynhyrchu arbedion.²⁷ Roeddent yn awyddus i bwysleisio yn eu tystiolaeth lafar na allant "ddibynnu ar [y cronfeydd wrth gefn] hynny fel mecanwaith cyllido hirdymor.²⁸

54. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn eglur bod y cronfeydd wrth gefn yn fater i awdurdodau lleol.²⁹

Tai ac Adfywio

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

55. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, wedi'u hymgorffori'n llawn yng ngweithrediad ei hadran, nid yn unig wrth benderfynu ar ddyraniadau cyllideb, ond hefyd wrth ddatblygu polisi.³⁰

56. Rydym yn croesawu yn benodol yr ymrwymadau i atal, atebion hirdymor ac integreiddio. Mae'r ymrwymiad i'r Ddeddf, a'r pum ffordd o weithio, yn parhau a bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro sut mae'r Ddeddf yn cyfrannu at benderfyniadau polisi a chyllidebol yn y dyfodol o fewn ei gylch gwaith.

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, paragraff 31

²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 25 Hydref 2018, Cofnod y Trafodion [63]

²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [369]

³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [5]

Diwygio Lles a'r Gronfa Cymorth Dewisol

57. Yn y blynyddoedd a fu, ni wnaed llawer o geisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol. Fodd bynnag, dywed papur y Gweinidog fod cyfanswm gwariant y Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod 2017-18 yn £8.69 miliwn, a oedd yn £40,000 yn fwy na'r gyllideb. Roedd y galw wedi parhau i gynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2018-19) a chafwyd y nifer fwyaf o geisiadau mewn un mis, ym mis Awst, ers cychwyn y Gronfa yn 2013. O ganlyniad, dyrannwyd £2 filiwn ychwanegol o gronfeydd wrth gefn yn 2019-20 i fynd i'r afael â'r galw cynyddol.³¹ Nodwn y gellir priodoli'r galw cynyddol i nifer o ffactorau, gan gynnwys ymestyn meini prawf cymhwyso a chyflwyniad parhaus Credyd Cynhwysol, yn ogystal â diwygio Lles yn gyffredinol.

58. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y dyraniad cyllid ychwanegol ar gyfer 2019-20 wedi cael ei amcangyfrif ar sail y gwariant misol gwirioneddol ers mis Ebrill 2018 sy'n dangos galw yn cynyddu o fis i fis. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i barhau i fonitro gwariant ar y Gronfa Cymorth Dewisol ac yn nodi, os bydd galw yn cynyddu mwy na disgwyliadau, bod "hyblygrwydd ar draws y cyllidebau i symud arian i allu ymdrin â digwyddiadau o'r fath".³²

59. Rydym yn cydnabod bod effaith penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n ymwneud â diwygio Lles yn cael effaith uniongyrchol ar y galw am daliadau o'r Gronfa Cymorth Dewisol. Nodwn hefyd ddatblygiadau cysylltiedig, fel cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU i Gyngor ar Bopeth i ariannu'r rhaglen *cymorth cynhwysol* o fis Ebrill 2019. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar lefelau swyddogol a gweinidogol ar bob agwedd ar ddiwygio Lles. Bydd ymgysylltiad parhaus gan Lywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ar lefel swyddogol a gweinidogol yn helpu i sicrhau y gellir adlewyrchu'n llawn ddiwygiadau Lles sy'n effeithio'n uniongyrchol ar adnoddau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a ddarparwyd i'r trydydd sector ar gyfer gwasanaethau cyngori, mewn dyraniadau cyllideb.

60. Byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i amlygu effaith diwygio Lles ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Nodwn fod canfyddiadau cychwynnol diweddar Adroddwr y Cenhedloedd Unedig ar dlodi eithafol a hawliau dynol yn y DU yn dweud ei bod yn gywilyddus bod yn rhaid i weinyddiaethau datganoledig wario

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog Tai ac Adfywio](#).

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [22]

adnoddau i amddiffyn pobl rhag polisïau llywodraeth.³³ Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 19 Tachwedd yn dweud ei bod yn ymwybodol bod problemau gyda'r Credyd Cynhwysol, er gwaethaf ei fwradau da. Dywedodd ei bod wedi eu gweld ei hun ac y bydd yn gwranddo ac yn dysgu gan grwpiau arbenigol yn y maes hwn sy'n gwneud gwaith mor dda. Roedd yn gwybod y gallai fod yn well.³⁴

Undebau Credyd a chynhwysiant ariannol

61. Rydym yn croesawu cefnogaeth barhaus y sector undebau credyd yng Nghymru ac yn cydnabod nid yn unig eu swyddogaeth o ran gwella mynediad at gredyd fforddiadwy ac annog cynilo, ond y rhan ehangach y maent yn ei chwarae yn y gymuned trwy hybu cynhwysiant ariannol a gwella capasiti ariannol.

62. Nodwn fethiant diweddar undeb credyd yn Abertawe a nifer o achosion o uno yn y sector. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cymorth ariannol Llywodraeth Cymru, a'r manteision cymunedol ehangach a ddarperir o'r gwariant hwnnw. Rydym eisiau gweld Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â'r sector i sicrhau ei gynaliadwyedd yn yr hirdymor.

Grant Cymorth Tai

63. Nodwn y cynnig i greu Grant Cymorth Tai newydd o fis Ebrill 2019. Rydym yn croesawu'r penderfyniad, yn dilyn gwerthusiad o'r prosiectau braenaru, i beidio â chyfuno grantiau sy'n gysylltiedig â thai gydag amrywiaeth o grantiau eraill sy'n darparu cymorth i deuluoedd a phlant.

64. Rydym yn cydnabod mai amcan Llywodraeth Cymru wrth gynnig y Grant Atal ac Ymyrryd yn Fuan cyfunol oedd gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n elwa o'r rhaglenni a gynorthwyr gan y grantiau ac i alluogi gwell integreiddiad o wasanaethau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod yr arbedion uno ac effeithlonrwydd arfaethedig (a fyddai'n arwain at ostyngiad cyfatebol i gyfanswm dyraniad y Grant Atal ac Ymyrryd yn Fuan yn 2019-20) wedi yn sefydlu ymgyrch ddarbwyllol, a llwyddiannus yn y pen draw, ar gyfer datrysiad dau grant.

65. Dyraniad cyllideb rhaglen Cefnogi Pobl yw'r rhan fwyaf o'r Grant Cymorth Tai newydd. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i feirniadaeth nad oedd yn gallu dangos sut y mae'r rhaglen yn cynnig gwerth am arian: datblygwyd fframwaith canlyniadau ac mae prosiect cysylltu data ar y

³³ Adroddwr y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol, [Datganiad ar ymweliad â'r Deyrnas Unedig](#), 16 Tachwedd 2018

³⁴ Hansard, Tŷ'r Cyffredin, Cyfrol 649, 19 Tachwedd 2018

gweill. Mae modelu gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod pob £1 sy'n cael ei wario ar Cefnogi Pobl yn sicrhau arbediad o £1.68 i wasanaethau eraill.³⁵ Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn i ddangos gwerth am arian a gwariant ataliol.

Digartrefedd

66. Cyflwynodd *Deddf Tai (Cymru) 2014* fframwaith newydd ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd ym mis Ebrill 2015. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r ddeddfwriaeth newydd a gynhaliwyd gan Brifysgol Salford a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam. Canfu'r adroddiad terfynol bod cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf yn amrywiol ledled Cymru.³⁶

67. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr astudiaeth hon, ac un arall a gyhoeddwyd yn ystod yr haf, wedi cynnig sail dystiolaeth ddefnyddiol o ran dyrannu gwariant yn y dyfodol ar yr agenda digartrefedd. Dyrannwyd cyllid ychwanegol yn y flwyddyn ariannol gyfredol i fynd i'r afael â materion penodol, er enghraifft ar gyfer y llwybr carcharorion. Roedd cyllid ychwanegol hefyd yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir manau o bwysau penodol o ran digartrefedd. Mae ardaloedd unigol wedi gallu datblygu eu dulliau eu hunain ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn.³⁷

68. Nodwn y bydd £10 miliwn ychwanegol ar gael i fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid yn 2019-20. Er bod y gyllideb ddrafft hon yn cynnig dyraniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 yn unig, hoffai'r Pwyllgor weld ymrwymiad parhaus i ddarparu cyllid yn benodol i atal, ymladd ac yn y pen draw ddileu digartrefedd ieuenctid mewn cyllidebau yn y dyfodol.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu, o leiaf, lefelau tebyg o gyllid mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol yn benodol i atal, ymladd ac yn y pen draw ddileu digartrefedd ieuenctid.

Y Cyflenwad Tai

69. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn hyderus y byddai'r targed o 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol erbyn diwedd y Cynulliad presennol yn cael ei fodloni. Byddant yn cael eu darparu gan gymdeithasau tai, awdurdodau lleol a'r

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [46-48]

³⁶ Llywodraeth Cymru, Gwerthusiad o Ddeddfwriaeth Digartrefedd (Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) Gorffennaf 2018

³⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [70]

sector preifat (adeiladwyr tai sylweddol a busnesau bach a chanolig). Mae adolygiad annibynnol o gyflenwad tai fforddiadwy ar y gweill a disgwylir iddo adrodd i'r Gweinidog ym mis Ebrill 2019. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd yn credu y byddai'n arwain at yr angen i wneud unrhyw newidiadau i ddyraniadau cyllideb ar unwaith.³⁸

70. Ers i'r adolygiad ddechrau, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd cap benthyc y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei ddiddymu yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn gallu ystyried, felly, yr effaith y bydd y penderfyniad hwnnw'n ei chael ar gyfraniad awdurdodau lleol at y ddarpariaeth.

71. Cyfalaf yw'r Grant Tai Cymdeithasol a dyma'r ffynhonnell sylfaenol o gyllid ar gyfer tai fforddiadwy newydd. Dyrannwyd £138 miliwn yn 2019-20, tua £69 miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd y dyraniad yn 2018-19 (£207.1 miliwn) yn sylweddol uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r Grant Cyllid Tai ar gael i gynorthwyo cymdeithasau tai, ac awdurdodau lleol sy'n datblygu cartrefi, gyda chost cyllid preifat. Grant refeniw yw'r Grant Cyllid Tai ac mae'n cynyddu £1.7 miliwn mewn termau arian parod i £13.1 miliwn yn 2019-20.

72. Rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ac ymdrechion i wella eu gallu i ragweld gwariant ar y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n llawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhannu senarios cyllideb yn y dyfodol fel bod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn barod ar gyfer y lefel hon o wariant eleni. Rydym yn croesawu'r dull hwn ac yn aros am ganfyddiadau'r adolygiad tai fforddiadwy o ran pa mor effeithiol yw'r system grantiau bresennol o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

73. Nid yw cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn golygu adeiladu cartrefi newydd yn unig, ac rydym yn arbennig o awyddus i weld mentrau sy'n dod ag eiddo gwag yn ôl i feddiannaeth, ac yn croesawu cymorth parhaus. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn hyrwyddo cynlluniau sy'n caniatáu i fflatiau uwchben siopau yng nghanol trefi gael eu hail-feddiannu, ac rydym yn croesawu'r defnydd o gyllid adfywio at y diben hwn.

74. Archwiliwyd gyda'r Gweinidog y diffiniad o gartrefi fforddiadwy, sy'n cynnwys cartrefi i'w prynu a'r rhai sydd ar gael am renti canolig erbyn hyn, yn ogystal â thai cymdeithasol mwy traddodiadol i'w rhentu. Nododd y Llywodraeth, o'r targed o 20,000 o dai fforddiadwy, fod rhwng 6,000 a 7,000 ar werth, gyda'r mwyafrif ar

³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [84]

gael i'w rhentu.³⁹ Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod parhad o ran cynnydd i nifer y cartrefi sydd ar gael i'w rhentu yn y sector tai cymdeithasol.

Safonau tai

75. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei bodloni erbyn 2020⁴⁰ ac yn nodi bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio nid yn unig i wella cyflwr y stoc tai cymdeithasol, ond hefyd i sicrhau cymaint o fuddion cymunedol â phosibl, fel creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi.

76. Mae datblygu cartrefi carbon isel a di-garbon yn flaenoriaeth, ac mae gan y Rhaglen Tai Arloesol y potensial i gyflawni hyn mewn partneriaeth â sector preifat BBaCh Cymru. Rydym yn derbyn y gall datblygu mathau newydd o dai fod yn ddrud i gychwyn, ond ceir potensial i sicrhau arbedion hirdymor, gan gynnwys i feddianwyr yn y dyfodol. Mae dod o hyd i atebion tai carbon isel sy'n gweithio i Gymru yn hanfodol.

77. Rydym o'r farn y gallai diwygio Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu (Cadwraeth Tanwydd a Phŵer) chwarae rhan bwysig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y gwerth gorau posibl am arian o unrhyw arian a ddarperir ar gyfer adeiladu tai.

78. Rydym yn dal i fod â diddordeb mawr mewn diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn. Nododd y Gweinidog fod bwrw ymlaen ag argymhellion Adolygiad Hackitt yn debygol o arwain at gostau, ond ei bod "yn llawer rhy gynnar ar hyn o bryd i ddeall beth fyddai'r costau hynny".⁴¹ Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu unrhyw gyllid angenrheidiol i sicrhau bod eiddo yn ddiogel pe bai tân yn digwydd.

Addasiadau a chyfranogiad tenantiaid

79. Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei hadolygiad Galluogi, wedi ceisio mynd i'r afael â rhai o'r gwendidau o ran darparu addasiadau trwy gyflwyno system newydd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad. Canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod bylchau sylweddol yn y system newydd. Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar safonau gwasanaeth addasu tai ym mis Medi 2018.

³⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [100]

⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [127]

⁴¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [136]

80. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai nod y safonau hynny yw pennu lefel y gwasanaeth a ddisgwylir gan y bobl hynny sy'n cyflawni'r addasiadau, ond hefyd rhoi rhywfaint o eglurder i'r bobl sydd angen yr addasiadau hynny ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl.⁴² Byddant yn dechrau ym mis Ebrill 2019. Dywedodd y Gweinidog y byddai dull mwy safonol yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau i bobl.

81. Rhoddwyd pwyslais ar swyddogaeth a chanolbwyntio ar roi llais i denantiaid yn dilyn y trychineb yn Nhŵr Grenfell. Yn ein hymchwiliad diweddar i ddiogelwch tân, clywsom sut y gwnaeth landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, a Cartrefi Dinas Casnewydd yn benodol, ymateb yn wych yn sgil y trychineb i roi sicrwydd i denantiaid. Rydym yn awyddus i ddod o hyd i enghreifftiau eraill o arfer gorau ym maes ymgysylltu â thenantiaid, ac edrychwn ymlaen at gael enghreifftiau gan y Gweinidog.

82. Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru yn gwneud darn o waith ar hawliau tenantiaid a chyfranogiad tenantiaid yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd yn arwain at argymhellion i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â nhw. Ariennir Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddarparu'r cysylltiad hwnnw â thenantiaid. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y bydd proses grantiau gystadleuol arall yn 2019.

Adfywio

83. Rydym yn awyddus i weld sut y bydd gwariant o dan y pedair strategaeth adfywio ranbarthol yn cyd-fynd â'r tri chynllun busnes rhanbarthol sydd wrthi'n cael eu datblygu gan adran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

84. Cytunodd y Gweinidog fod hyn yn angenrheidiol ac y dylai fod yn syml o gofio eu bod yn cyd-fynd ag ardaloedd ffiniau awdurdodau lleol.⁴³ Rydym yn awyddus i weld gweithio cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth, a rhwng awdurdodau lleol a'r llywodraeth, ac rydym yn croesawu'r dull hwn.

85. Fel y cyfryw, byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn egluro sut y bydd dull adfywio Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Bargeinion Dinesig a Thwf sefydledig ac arfaethedig yng Nghymru, ac yn eu cynorthwyo'n weithredol. Byddem hefyd yn ddiolchgar i gael eglurhad am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran ariannu Cais Bargen Twf y Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod y

⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [138]

⁴³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 15 Tachwedd 2018, Cofnod y Trafodion [159]

Cais wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bwriad i roi cymorth gwerth £120 miliwn o gyllid i'r Fargen Twf.

86. Dylai dyrannu adnoddau mewn ffordd sy'n lleihau'r anghydraddoldebau orau chwarae rhan yn y broses gyllidebol, ac nid yw Adfywio yn eithriad. Nodwn fod y broses ar gyfer gwneud cais am gyllid drwy'r rhaglen adfywio wedi'i thargedu yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi manylion y manteision, a cheir cysylltiadau eglur â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth i'r rhaglen ddatblygu, byddwn yn ceisio sicrhau bod dyraniadau'r gyllideb yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb a'r nodau hynny.